DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,

## MyDentist, Porthaethwy

Dyddiad Arolygu: 14 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-9567-8© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2

2. Cyd-destun ..... 3

3. Crynodeb ..... 4

Canfyddiadau ..... 5

Ansawdd Profiad y Claf ..... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 11

4. Y Camau Nesaf ..... 13

5. Methodoleg ..... 14

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o MyDentist (Canolfan Ddeintyddol Woodlands), Y Ficerdy, Ffordd Mona, Porthaethwy, LL59 5EA, ar 14 Mawrth 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd MyDentist, Porthaethwy, yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darparu gofal sy'n ddiogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae MyDentist (Canolfan Ddeintyddol Woodlands), Porthaethwy, wedi darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Ynys Môn ers iddo gael ei sefydlu yn 2007. Mae'r practis yn ffurfio rhan o Integrated Dental Holdings, a adnabyddir fel 'MyDentist', sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ledled y Deyrnas Unedig. Mae MyDentist Porthaethwy yn darparu gwasanaethau deintyddol yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae MyDentist Porthaethwy yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, tair nyrs, dau dderbynnydd a rheolwr practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y swyddog rheoleiddio hefyd yn bresennol.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod MyDentist Porthaethwy yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel i gleifion ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis.
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd cofnodion clinigol cleifion o safon uchel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u bod yn benodol i'r practis. Dylent gynnwys dyddiad adolygu a/neu fersiynau sy'n cael eu rheoli ynghyd â llofnodion staff.
- Dylai'r practis adolygu'r llif aer yn yr ardal ddadheintio.
- Dylai'r practis sicrhau bod cynllun archwilio ysgrifenedig ar gael ar gyfer y peiriant awtoclaf.

## Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion yn gadarnhaol ac yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd 47 ohonynt.  Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Staff cyfeillgar a chymwynasgar'*
>
> '*Staff cymwynasgar a chyfeillgar, dim problemau gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd*'
>
> '*Gwasanaeth rhagorol gan staff proffesiynol ar bob lefel*'
>
> *'Hapus iawn gyda'r practis hwn'*
>
> *'Mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych o'r dechrau hyd at (bron y diwedd) – mae fy nhriniaeth olaf yfory.Mae'r deintydd wedi trafod y driniaeth gyda fi ac wedi fy ngadael yn teimlo'n hyderus amdani.Hefyd, mae'r apwyntiad wedi'i drefnu mor hawdd â phosibl ac mae'r gofal ar ôl y driniaeth wedi bod yn dda iawn.Dim cwynion.Practis  penigamp'*
>
> *'Rydyn ni bob amser wedi bod yn hapus fan hyn yn y practis deintyddol hwn'*
>
> *'Balch iawn gyda'r ffordd i mi gael fy nhrin.Diolch'*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwnaethom arsylwi ar y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn y practis wedi ei fabwysiadu tuag at gleifion.  O'r 47 holiadur a gwblhawyd, cadarnhaodd 46 claf eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn.  Un claf yn unig a nododd ei fod yn teimlo bod ei apwyntiad wedi'i frysio.

Mae gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff, ac i staff ymdrin â negeseuon ffôn gan gleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon, ac o'r holiaduron a gwblhawyd, dim ond deg claf a nododd eu bod wedi profi oediadau byr erioed, a gwnaed yn glir nad oedd y rhain wedi bod yn broblem.

Dywedodd 23 claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd y tu allan i fynedfa'r adeilad yn rhoi’r manylion cyswllt brys, a rhoddid y manylion hyn ar beiriant ateb y practis hefyd. Mae manylion cyswllt hefyd yn cael eu darparu yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau rhag ofn bod argyfwng.

Cadw’n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y dderbynfa/man aros.

Gofal unigol

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos inni fod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn a bob amser yn teimlo eu bod yn derbyn croeso cynnes.

Mae'r practis wedi'i leoli ar ddau lawr a gall defnyddwyr cadair olwyn gael mynediad at y practis ar lefel y llawr daear wrth ddefnyddio'r lifft. Mae’r dderbynfa, y man aros ac un ystafell driniaeth ddeintyddol yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd un toiled deuryw, ar gyfer cleifion sy'n medru cerdded a defnyddwyr cadair olwyn, ar y llawr daear ac roedd un toiled ar y llawr cyntaf ar gyfer y staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân. Hysbyswyd y practis y dylai'r biniau yn y toiled fod yn finiau a weithredir â throed.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cynghorwyd y practis i sicrhau bod unrhyw finiau yn nhoiledau'r staff a'r cleifion yn cael eu newid am finiau a weithredir â phedal troed.***

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ar waith, a oedd wedi'i harddangos ar yr hysbysfwrdd ar bwys y fynedfa. Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn hefyd wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, er y mesurau hyn, gwnaethom nodi o'r holiaduron nad oedd dros hanner y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o wneud yn siŵr bod pob claf yn gwybod sut i wneud cwyn. Sicrhaodd y practis ar unwaith fod y weithdrefn gwyno ar gael ym mhob un o'r ardaloedd aros yn ystod ein hymweliad arolygu.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol cleifion ac yn derbyn y sylw priodol. Gwnaethom argymell bod y practis yn cofnodi pryderon anffurfiol mewn llyfr cadw cofnod canolog er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin. Gwnaeth y practis lunio a sefydlu llyfr cadw cofnod yn ystod ein hymweliad.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gasglu adborth gan y cleifion. Mae'r practis yn cyflawni hyn trwy ddarparu holiaduron i'w gleifion yn y dderbynfa a hefyd drwy negeseuon e-byst. Gwnaeth y practis hefyd ein hysbysu bod cleifion yn derbyn neges destun ar ôl pob apwyntiad sy'n eu caniatáu i ddarparu adborth. Mae manylion y dadansoddiad o'r adborth yn cael eu cyhoeddi ar wefan y practis a gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi gweithredu ar adborth a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau, megis darparu mwy o ddeunydd darllen i gleifion.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni’r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.Canfuom fod gofal deintyddol diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion.Roedd nodiadau clinigol cleifion o safon uchel.**

Gofal diogel

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.  Gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd triniaeth i’w gweld yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd gan y practis system fwy diogel ar waith ar gyfer ymdrin ag offer miniog er mwyn lleihau'r risg o anafiadau gan nodwyddau. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried gosod llawr a chanddo 'gilfwâu'[1] yn yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio wrth wneud gwaith ailwampio yn y dyfodol. Dywedodd y practis wrthym y byddai lloriau â 'chilfwâu' yn cael eu gosod fel rhan o'u cynlluniau ailwampio yn ystod haf 2017.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl offer trydanol gan sicrhau bod yr holl ddyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol.  Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi’i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelwyd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar y diwrnod ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

---

[1] Dylai'r lloriau mewn ardaloedd clinigol a dadheintio fod yn ddi-dor a, lle bo'n bosibl, dylid gosod cilfwâu rhwng y wal a'r llawr er mwyn atal llwch a baw rhag cronni mewn corneli a holltau.

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl ddeintyddion.

Roedd trefniadau derbyniol ar waith ar gyfer amddiffyn cleifion a staff pan oedd yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio.  Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw offer, a phrofi offer pelydr-X.

Roedd gweithdrefnau rhagorol ar waith yn y practis yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion.  Mae'r practis hefyd yn modelu digwyddiadau argyfwng rheolaidd gyda staff, sy'n arfer da.  Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol ac roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw’n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y man yn amlwg yn lân ac yn rhydd rhag annibendod.  Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff.  Fodd bynnag, nodwyd bod angen diweddaru'r polisi dadheintio er mwyn iddo fod yn fwy penodol i'r practis.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadheintio gan sicrhau ei fod yn benodol ar gyfer y practis.***

Nodwyd hefyd bod y ffan echdynnu wedi’i gosod ar ochr lân yr ystafell ddadheintio, ac mae hyn yn creu llif aer anghywir.  Gwnaethom argymell i'r practis eu bod yn ystyried adolygu hyn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu lleoliad y ffan echdynnu aer er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo yn y cyfeiriad cywir.***

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd gan un o'r peiriannau awtoclaf (unedau sterileiddio) gynllun archwilio ysgrifenedig a gwnaethom argymell bod y practis yn cysylltu â'r peiriannydd/gwneuthurwr er mwyn iddynt ei ddarparu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Y practis i sicrhau bod cynllun archwilio ysgrifenedig ar waith ar gyfer y peiriant awtoclaf.***

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cyfredol. Fodd bynnag, gwelsom fod y polisi a oedd ar waith yn un cyffredinol a gwnaethom argymell y dylai'r polisi gael ei ddiweddaru a'i wneud yn benodol i'r practis.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Y polisi storio a gwaredu gwastraff i gael ei adolygu a'i wneud yn benodol i'r practis.***

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, a bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant yn y maes hwn. Mae'r practis hefyd yn modelu digwyddiadau argyfwng rheolaidd gyda staff, sy'n arfer da.

<u>Gofal effeithiol</u>

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod rhai archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

Roedd tystiolaeth bod y practis ar y cyfan yn cadw cofnodion clinigol ardderchog. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd yr holl ddeintyddion yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod hwn yn bractis a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.**
**Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.**

Mae MyDentist Porthaethwy wedi darparu gwasanaethau i gleifion yn Ynys Môn ers iddo gael ei sefydlu yn 2007.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Mae rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac mae hi'n effeithlon ac yn gymwys yn ei swydd. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus wrth leisio unrhyw bryderon neu broblemau.

Gwelsom dystiolaeth glir o ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda ac yn drefnus. Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant hefyd, gan ragori ar ofynion datblygiad proffesiynol parhaus o ran nifer yr oriau sydd wedi'u neilltuo i fynychu sesiynau hyfforddi, hyfforddiant blynyddol academi ar-lein, a hefyd i ymgymryd â sesiynau mewnol rheolaidd megis sefyllfaoedd achosion brys a diogelu.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau blynyddol staff, gydag adolygiadau yn cael eu cynnal gyda staff bob chwe mis.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Canfuom fod y practis yn arddangos enw a chymwysterau'r holl ddeintyddion yn eglur, ynghyd â manylion cyswllt brys ac amseroedd agor y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a chanfod eu bod yn gyffredinol yn adlewyrchu arfer go iawn a'u bod yn cynnwys tudalen flaen er mwyn i staff ei llofnodi.  Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu system rheoli fersiynau ac nid oeddent yn cyd-fynd â llofnodion y staff. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd, eu bod yn benodol i'r practis, yn adlewyrchu arfer go iawn, ac yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu system rheoli fersiynau – ac y dylent gyd-fynd â llofnodion staff.

## 4. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn MyDentist Porthaethwy yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: MyDentist, Porthaethwy

## Dyddiad yr Arolygiad: 14 Mawrth 2017

| **Rhif y Dudalen** | **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella** | **Rheoliad / Safon** | **Camau Gweithredu'r Practis** | **Swyddog Cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw finiau yn nhoiledau'r staff a'r cleifion yn cael eu newid am finiau a weithredir â phedal troed. | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991<br><br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | Mae'r biniau a weithredir â phedal troed bellach wedi'u gosod yn nhoiledau'r ystafell staff ac yn nhoiledau'r cleifion. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadheintio gan sicrhau ei fod yn benodol i'r practis. | Safonau Iechyd a Gofal, 2.4 | Roedd hwn wedi'i arddangos yn yr ystafell ddadheintio ar ddiwrnod yr adolygiad. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 9 | Dylai'r practis adolygu lleoliad y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo i'r cyfeiriad cywir. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 6.41 – 6.42 | Trafodwyd hyn gyda'n hadran gyfleusterau a bydd yn derbyn sylw er mwyn mynd i'r afael â'r lleoliad anghywir. | Cyfleusterau/ Swyddog Rheoleiddio a Rheolwr y Practis | Medi/Hydref 2017 |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis sicrhau bod cynllun archwilio ysgrifenedig ar waith ar gyfer y peiriant awtoclaf. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 9.3 | Gwnaed cais am hwn gan Eschmann a bydd copi yn cael ei ddarparu unwaith y caiff taliad ei dderbyn. | Rheolwr y Practis | 5 Mai 2017 |
| Tudalen 10 | Dylai'r polisi storio a gwaredu gwastraff gael ei adolygu a'i wneud yn benodol i'r practis. | Safonau Iechyd a Gofal, 2.9 | Mae polisi penodol wedi'i lunio gan y practis hwn er mwyn tynnu sylw at y mathau o ddulliau a ddefnyddir i waredu ar wastraff, lleoliad y gwastraff, a pha mor aml y mae'n cael ei gasglu gan ddeiliaid ein contract gwastraff fel bod unrhyw un sy'n newydd i'r practis yn ymwybodol o'r system a'r broses sy'n benodol i'r safle hwn. | Rheolwr y Practis | 5 Mai 2017 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis: Ceri Jones**

**Enw (wedi'i brintio): Ceri Jones**

**Teitl: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 18 Ebrill 2017**